OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2800 (Cy.268)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*12 Tachwedd 2002*
Yn dod i rym - -	*13 Tachwedd 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 132(3) a (4), a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) fel y'u hestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 13 Tachwedd 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig ac nid ydynt yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau grant sy'n cael eu gwneud cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygiadau

2.—(1) Mae'r ffurflen (Saesneg) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) 1997(**3**) yn cael ei diwygio yn unol â thestun Saesneg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae'r ffurflen (Gymraeg) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Ffurflen Gais Gymraeg) 1999(**4**)) yn cael ei diwygio yn unol â thestun Cymraeg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1996 p.53. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. I gael y diffiniad o "prescribed" *gweler* adran 140(1).
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) O.S. 1997/2847, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/810, 1999/1541, 1999/2625, 2000/720, 2001/2072 (Cy.144) a 2001/4008 (Cy.334).
(**4**) O.S. 1999/2315, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/3469 (Cy.55), 2000/1710 (Cy.116), 2001/2072 (Cy.144) a 2001/4008 (Cy.334).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

D.Elis-Thomas
12 Tachwedd 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p. 38.